

## CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

### COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH, 13eg MEDI 2022 A GYNHALIWDYD

#### YNG NGHANOLFAN TALYSARN AM 7.000'R GLOCH.

1. **Presennol** – Gwyndaf Roberts (cad), Hefina Roberts, Christine Hughes – Llanllyfni, Judith Humphreys, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams – Penygroes, Dafydd Thomas – Nebo, Harry Wyn Owen, Gareth Jones – Talysarn, Ffion Jones – Nantlle. Cynghorydd Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** - Justin Davies, Dylan Herbert, Ceri Owen - Penygroes, Siân Dafydd, Peter Bridges - Talysarn. Cynghorydd Dafydd Davies.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

2. **Datgan buddiant personol** – neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod llawn 12fed Gorffennaf 2022** - cynigwyd gan Barry ac eiliwyd gan Harry bod y cofnodion yn gywir a chytunodd gweddill y cyngor.

4. **Materion yn codi o'r cyn cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - adroddwyd fod y wal ar Ffordd Nebo yn cael ei atgyweirio'r wythnos yma. Hefyd, wal Mynwent Macpela wedi ei gorffen erbyn hyn. Neges wedi ei dderbyn gan Steffan Jones ynglŷn â'r safle ail-gylchu ac nad oeddynt yn gweld problem gyda gwastraff a thipio anghyfreithlon yn digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd - felly mwy neu lai nid ydynt am roi'r safle yn nol ym Mhenygroes.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd adroddiad wedi ei dderbyn gan Cyng. Peter Thomas a diolchwyd iddo am ei pharatoi. Rhoddwyd cyfle i holi ond nid oedd dim yn codi o'r adroddiad. Roedd Judith Humphreys wedi cysylltu gyda Cyng. Craig ab Iago am ddiweddariad o bethau a oedd wedi codi yn y cyfarfod diwethaf. Adroddodd Judith beth oedd Craig wedi ei ymateb a bod y mater ynglŷn â chais cynllunio'r clwb ieuencid dal heb fynd drwy cynllunio, a'i fod yn ceisio i gael cyfleusterau ail-gylchu yn yr ardal. Darllenodd Judith weddill e-bost Craig ynglŷn ag pethau eraill a oedd yn mynd ymlaen ac nid oedd dim yn codi o'r materion hyn. Gofynnwyd a oedd posib i'r clerc gysylltu gyda'r cynghorwyr i ofyn am adroddiadau ymlaen llaw yn fisol er mwyn cael trafod unrhyw beth a oedd yn codi yn y cyfarfodydd. Y clerc i gysylltu gyda Craig a Dafydd i ofyn am hyn.

6. **Materion Pentrefi - Penygroes** - adroddwyd bod y cerbiau tu allan i rif 28 a 50 Trem Yr Wyddfa dal heb gael sylw a'u bod yn beryglus. Ramp frics wrth Cae Catrin yn beryglus ac angen sylw brys rhag i rywun gael codwm a brifo yno. Y bont o'r cae chwarae i Lon Eifion, mae darn o'r tarmac wedi do di ffwrdd a'r dur oddi tanno wedi dod i'r golwg - hyn angen sylw brys hefyd. Safle bws wrth y Co-op wedi ei falurio unwaith eto a golwg yno. Cynigwyd i Nia yrru at yr heddlu i ofyn iddynt edrych ar y CCTV i weld beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen, a gweld beth ellir ei wneud am y mater. Cwynion wedi eu derbyn am gerbyd yn gyrru o gwmpas gan berson sydd heb drwydded nac felly yswiriant, angen tynnu sylw'r heddlu at hyn hefyd. Gofyn i Nia yrru llythyr / neges i grŵp Cynefin i ddiolch yn fawr iddynt am gario allan y gwaith torri gwrychoedd yng Nghae Capel yn sydyn ar ôl i ni ofyn. **Nantlle** - goryrru dal yn bryder. Adroddodd Cyng. Peter Thomas ei fod mewn cyfarfod gydag Iwan ap Trefor ar 26 Medi am hyn a bydd yn adrodd nôl yn y cyfarfod nesaf. **Nebo** - braf gweld y wal o'r diwedd yn cael ei hatgyweirio. Tyllau yn y ffyrdd dal yn broblem ac yn gwaethygu - Lon Tŷ Cerrig ac Allt Pant Y Gog yn ofnadwy erbyn hyn a llawer o gerrig yn y ffordd hefyd. Adroddodd Dafydd fod Nebo wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael diffib i'w roi ar Gapel Nasareth. Hefyd wedi rhoi cais i mewn i Cadw Cymru'n Daclus i gael perllan yn Parc Nebo. **Talysarn** - dim mater yn codi. **Llanllyfni** - cwyn wedi ei dderbyn bod arwydd Lon Tyddyn Agnes wedi diflannu, adroddodd Cyng. Peter Thomas ei fod mewn llaw i gael ei osod yn nol. Tyllau ar Ffordd Rhedyw yn gwaethygu, Cyng. Peter Thomas wedi cael ymateb gan Gyngor Gwynedd na fydd yn cael ei gwneud eleni yn anffodus. Twll ar Lon Ddŵr wedi suddo eto, Cyng. Peter Thomas am ddilyn fyny ar hyn. Llwybr rhwng Graianfryn a Bronhaul eisiau ei thorri. Arwydd Nasareth yng ngwaelod y gefnffordd a Lon Parc eisiau postyn newydd, ac arwydd Nebo angen ei droi. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau perthnasol am y materion hyn.

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau - Dorothea** - Gwyndaf Roberts, Harry Owen, Peter Bridges a Peter Thomas wedi cyfarfod gyda Tim Heatley o Dorothea ar 26 Gorffennaf. Adrodd bod y maes parcio wedi ei wneud. Adroddodd Harry ei fod wedi cael ambell alwad ffôn gan bobl yn bryderus os oeddynt am dorri'r coed yno - NA, ni fyddant yn torri'r coed.

8. **Taflen ariannol a chyllid** - pawb wedi derbyn copi o'r gyfriflen ymlaen llaw i edrych drosti. Adroddodd Gareth fod un o'r cyfrifon wedi ei gau bellach ar arian wedi ei drosglwyddo i'w cyfrif arall yn y gobaith y bydd hyn yn lleihau costau llog banc. Angen dilyn fyny ar y golau Nadolig i Lanllyfni.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - llwybr rhif 31 o Tan Y Bryn i Lon Eifion angen ei dorri. Cross Street - Barry yn cynnig y dylid gofyn i'r contractwyr i ledaenu'r man yno wrth dorri. **Tendr Pori Cae Macpela** - roedd tri phris wedi ei dderbyn am y tendr. Aethpwyd drwy'r prisiau, cynigwyd gan Harry Owen a chytunwyd yn unfrydol ar y pris i'w dderbyn. Gofynnwyd i Nia hysbysu'r tri am y penderfyniad a threfnu i arwyddo'r contract ac yn y blaen gyda'r buddugol. Cynigiodd Barry y dylid rhoi cloeon ar y giatau newydd i'r cae rhag bod rhywun yn eu hagog a'r anifeiliaid yn dod allan. Doedd dim gwrthwynebiad i hyn. Adroddodd Gwyndaf a Barry eu bod wedi ymweld â'r mynwentydd dydd lau a bod y wal yn Macpela wedi ei gorffen a'u bod yn hapus iawn a'r gwaith. Dywedwyd bod un rhan o Macpela heb gael chwynladdwr a bod angen gofyn i'r contractwyr wneud hyn mis Mai (rhy hwyr nawr i'w roi) a hefyd gofyn iddynt roi chwynladdwr ddwywaith y flwyddyn. Yn Eglwys Sant Rhedyw sylwi bod y rhan lle mae'r beddi diweddar yn cael ei dorri ond nad yw'r darn sydd ymhellach ymlaen ddim. Teimlai y dylid cyfarfod gyda'r contractwyr i drafod popeth. Nia i gysylltu gyda nhw i gael dyddiad i gyfarfod.

10. **Diweddariad Clwb Ieuenctid Penygroes** - e-bost wedi ei dderbyn gan Sion Bryn Roberts am y sefyllfa yn esbonio eu bod wedi cael lleoliad i osod y caban ond eu bod yn disgwyl cadarnhad gan yr adran gynllunio i gael ei osod yno.

11. **Ystafelloedd newid CPD Talysarn Celts - Drysau** - esboniodd Gwyndaf nad oedd wedi bod yn bosib cael prisiau am y drysau gan y seiri coed a oedd wedi bod yno, ond bod yna gwmnïau eraill sydd yn gosod drysau UPVc wedi ymweld â wedi rhoi prisiau. Roedd tri phris wedi eu derbyn - trafodwyd y tri. Cynigwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol i fynd gyda phris Sion Jones. Nia i gysylltu gydag o i'w hysbysu ac i gadw mewn cysylltiad gydag o i wybod pryd bydd y gwaith wedi ei wneud. Cawodydd - e-bost wedi ei dderbyn gan Peter Bridges am y cawodydd a'i fod yn disgwyl amcan bris gan drydanwr am y gwaith. Am basio hwn ymlaen i Nia pan fydd wedi ei dderbyn.

12. **Cofeb R.W Parry a bedd John Jones, Talysarn** - darllenwyd neges a oedd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r safleoedd hyn ac yn rhoi cais i'r cyngor fod yn gyfrifol drostynt. Trafodwyd y mater a chytunwyd i Harry wneud ymholiadau os oedd yna deulu yn bodoli i John Jones, ac efallai mai nhw ddylai fod a chyfrifoldeb dros y bedd. Esboniodd Barry bod OP Huws wedi gwneud gwaith rhagorol yn ymchwilio i gofeb R.W Parry a bod yna ymddiriedolwyr wedi bod ar ei chyfer a bod yno arian yn sefyll mewn banc ar gyfer edrych ar ôl y gofeb - ond buasai angen manylion yr ymddiriedolwyr er mwyn cael mynd at yr arian ac at y gofeb. Yn anffodus nid y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am yr un o'r ddau safle.

13. **Ciosg Ffon K8, Nebo** - llythyr wedi ei dderbyn yn dweud bod y ciosg bellach wedi ei gofrestru gan Cadw fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig

#### 14. **Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0570/22/LL** – Lock up self storage, Penygroes

**C22/0725/22/DT** – 57 Stryd Fawr, Penygroes – Dymchwel estyniad unllawr cefn ac adeiladu estyniad deulawr a llefydd parcio ychwanegol.

**C22/0691/22/DT** – Nant Noddfa, Ffordd Pont Lloc, Nebo – Addasu porth blaen gan godi'r to presennol i greu ystafell wely newydd ar y llawr cyntaf, tynnu to fflat cefn er mwyn creu estyniad un llawr to crib a garej dwbl newydd.

**C22/0748/22/LL** - Fferm Gwynfaes, Llanllyfni - Adeiladu sied amaethyddol gyda thanc piswall tanddaearol.

**C22/0821/22/LL** – Y Barics, Nantlle – Gosod arwydd gwybodaeth ar ffurf desg ddarllen.

Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau hyn.

#### 15. **Gohebiaeth**

- Cyngor Gwynedd - Ymgynghori Treth Gyngor Tecach
- Cyngor Gwynedd – Canllaw Dylunio Atodol Llechi
- UnLlais – Diweddariad Grant Cymunedau Gwydn
- UnLlais – Chwilio am Gyflenwyr Cymreig
- UnLlais – Rownd2: Cyllid lleoedd lleol ar gyfer natur- chwalu rhwystrau
- Parc Cenedlaethol Eryri - Cyfarfodydd Blyneddol Cynghorau Cymuned a Thref gydag Awdurdod y Parc
- UnLlais – Y diweddaraf yn yr ymgyrch 'Iddyn Nhw'
- UnLlais – Cynllun Grant Creu Coetir
- Cyngor Gwynedd - Cynllun Gwella Platfform Digidol Gwynedd

Nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn.

16. **Materion ariannol** - G M Jones StoneMason – codi wal Mynwent Macpela **£990.00**  
- Ryan Hughes – ffensio Cae Mynwent Macpela 2275.98+298.80 = **£2574.78**  
- Nia Jones – nwyddau swyddfa **£48.33**  
- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd - **£25.00**

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r uchod.

17. Unrhyw fater arall – adroddwyd bod Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bro Lleu angen aelod.

E-bost wedi ei dderbyn gan Cyng. Craig ab Iago yn gofyn ac mai'r Cyngor Cymuned sydd berchen ar dir Cwtin. Gofynnwyd i Nia os oedd modd iddi holi Siân pe bai yn fodlon edrych ar y gofrestr tir os yw wedi ei gofrestru i'r Cyngor Cymuned.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.